



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
1 Samuel 1: 1-28		
1 Roedd yna ddyn o'r enw Elcana yn byw yn Rama. Roedd ganddo ddwy wraig - Hanna a Penina.		
2 Roedd gan Penina blant, ond doedd gan Hanna ddim plant.		
3 Bob blwyddyn byddai Elcana yn mynd i Seilo i addoli a cyflwyno aberthau i'r ARGLWYDD.		

-
- 4 Eli oedd y Prif Offeiriad, ac roedd ei ddau fab yn offeiriaid yno hefyd. Roedd meibion Eli yn ddynion drwg iawn.



-
- 5 Roedd Penina yn arfer herian Hanna yn arw a'i phryfocio am ei bod yn methu cael plant. Yr un peth oedd yn digwydd bob blwyddyn pan oedden nhw'n mynd i gysegr yr ARGLWYDD. Byddai Penina yn pryfocio Hanna nes ei bod yn crïo ac yn gwrthod bwyta.



-
- 6 A byddai Elcana yn trio ei chysuro hi wrth ddweud wrthi, "Hanna, pam wyt ti'n crïo a ddim yn bwyta? Pam wyt ti mor ddigalon? Ydw i ddim yn well na deg mab i ti?"



-
- 7 Un tro, ar ôl iddyn nhw orffen bwyta ac yfed yn Seilo, dyma Hanna'n codi a mynd i weddio. (Roedd Eli'r offeiriad yn eistedd ar gadair wrth ddrws y deml ar y pryd.)



-
- 8 Roedd hi'n torri ei chalon ac yn beichio crïo wrth weddio ar yr ARGLWYDD. A dyma hi'n addo i Dduw, "ARGLWYDD, plis wnei di gymryd sylw ohono i, a peidio troi oddi wrtho i? Os gwnei di roi mab i mi, gwna i ei roi i'r ARGLWYDD am ei oes, a fydd e byth yn torri ei wallt."



-
- 9 Am ei bod hi'n gweddïo'n dawel, roedd e'n gweld ei gwefusau'n symud ond heb glywed dim, felly roedd Eli'n meddwl ei bod hi wedi meddwi. A dwedodd wrthi, "Pam wyt ti'n meddwi fel yma? Rho'r gorau iddi!"



-
- 10 Atebodd Hanna, "Dw i ddim wedi bod yn yfed o gwbl. Dw i wedi bod yn bwrw fy mol o flaen yr ARGLWYDD. Dw i wedi bod yn dweud wrtho mor boenus a thrist dw i'n teimlo." "Dos adre yn dawel dy feddwl," meddai Eli, "a boed i Dduw Israel roi i ti beth wyt ti eisïau."



-
- 11 Aeth Hanna adre. Ychydig amser wedyn aeth Hanna'n feichiog, a cyn diwedd y flwyddyn roedd wedi cael mab. Galwodd e'n Samuel, am ei bod wedi gofyn i'r ARGLWYDD amdano



-
- 12 Pan oedd yn ddigon hen, aeth Hanna â'r bachgen i fyny i gysegr yr ARGLWYDD yn Seilo (er mai plentyn ifanc oedd e). Dyma Hanna'n cyfarch Eli a dweud, "Fi ydy'r wraig oedd yn sefyll yma wrth eich ymyl chi yn gweddïo ar Dduw. Am y bachgen yma roeddwn i'n gweddïo, ac mae Duw wedi ateb fy ngweddi! Felly dw i'n ei roi e i'r ARGLWYDD. Dw i'n ei roi e i'r ARGLWYDD am weddill ei fywyd."



-
- 13 Arhosodd Samuel gyda Eli. Roedd ei fam yn dod yno i'w weld bob tro y byddai'n dod i addoli i Seilo.



-
- 14 Cyfieithwyd gan
www.beib.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

www.freebibleimages.org
